**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 29 Tachwedd 2023**

**Presenoldeb:** **Cadeirydd: Cynghorydd Menna Trenholme**
**Is-gadeirydd: Cynghorydd Nia Jeffreys**

**Cynghorwyr:** Medwyn Hughes, Eryl Jones-Williams, June Jones, Anne Lloyd-Jones, Dafydd Meurig, Angela Russell, Dyfrig Siencyn ac Ioan Thomas

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Annes Sïon (Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**: Cynghorydd Beca Brown - Aelod Cabinet Addysg

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Cai Larsen, Beth Lawton, Gwynfor Owen a Rob Triggs

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7fed o Dachwedd 2023 fel rhai cywir

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER PENNAETH ADDYSG**

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.

b) Cyfwelwyd tri ymgeisydd ar gyfer y swydd Pennaeth Addysg

c) Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad rhwng 10 a 15 munud ar y testun, 'Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu'r Adran Addysg dros y blynyddoedd nesaf a sut fyddech yn mynd i'r afael a hwy?'

Ymatebwyd i bum cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Menna Trenholme, ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

Gwahoddwyd Mr Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r tri ymgeisydd mewn cyfres o ymarferion cyn cyfweld. Cyflwynwyd canlyniadau profion ac ymarferion a gwblhawyd, ymateb i gyfweliad proffesiynol gyda'r Prif Weithredwr a Mr Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac i ymarferion gyda phanel o Benaethiaid Ysgolion Gwynedd (yn cynnwys Cynradd, Uwchradd ac Arbennig) a dau Aelod Cabinet.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Beca Brown, Aelod Cabinet Addysg, i gyflwyno sylwadau ar berfformiad yr ymgeiswyr yn y cyfweliad.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Gwern ap Rhisiart.

**PENDERFYNWYD penodi Mr Gwern ap Rhisiart i'r swydd PENNAETH ADDYSG**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 15:30